Diwrnod Hwyl ym Mhorthmadog – 27 Awst 2010

Cynhelir diwrnod llawn hwyl i'r teulu i gyd yng Nghlwb Chwaraeon Porthmadog ddydd Sul 12 Medi.

Bydd yn dechrau am 10am, a bydd y digwyddiadau'n cynnwys cerddoriaeth fyw gyda bandiau lleol a caraoce, marchnad ffermwyr, stondinau crefftau, cestyll neidio, paentio wynebau, arddangos heboga, dangos carate ac arddangosfa gan Wasanaeth Tân Gogledd Cymru.

Yn ogystal â hynny, bydd cystadleuaeth gwisg ffansi i blant, gemau i blant, cystadleuaeth ciciau cosb a llawer mwy.

Trefnwyd y digwyddiad gan GISDA, elusen leol, fel rhan o'i weithgareddau i hyrwyddo'r corff wrth iddo gyrraedd ei ben blwydd yn 25. Mae'r elusen wedi bod yn helpu pobl ddigartref ifanc yng Ngwynedd ers 1985 a bellach mae'n helpu mwy na 100 o bobl ifanc a theuluoedd lleol bob blwyddyn.

Meddai Mair Richards, ei Brif Weithredwr: "Bydd y diwrnod hwyl yn ddigwyddiad gwych sy'n cynnig rhywbeth o ddiddordeb i bobl o bob oed."

"Meddyliodd pobl ifanc GISDA am syniadau, ac un ohonynt oedd cynnal diwrnod hwyl i bobl leol ac ymwelwyr, fel ffordd i hybu ymwybyddiaeth a darparu gwybodaeth am yr elusen". Meddai Ffion Roberts o Gaernarfon, sydd wedi bod yn helpu i drefnu'r digwyddiad gyda staff GISDA "Rydym wedi bod yn meddwl am wahanol ffyrdd i nodi pen blwydd GISDA yn 25 a chynigiodd llawer o bobl yr un syniad o drefnu diwrnod hwyl. Rydym wedi cymryd rhan yn Sioe Sir Fôn a diwrnod agored Wylfa yn barod, ond ein hoff weithgarwch oedd trefnu ein diwrnod hwyl. Rydym yn edrych ymlaen ato'n fawr ac yn gobeithio gweld cymaint o bobl ag sy'n bosibl yno ar y diwrnod."

Ychwanegodd Mair Richards: "Pan sefydlwyd GISDA nid oedd neb yn disgwyl y byddai'r fath alw am ein gwasanaethau 25 mlynedd yn ddiweddarach. Oherwydd y sefyllfa ariannol bresennol rydym hefyd yn disgwyl i'r galw am ein gwasanaethau gynyddu yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae'n bwysig bod pobl ifanc yn ymwybodol o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael iddynt, a GISDA yw'r unig gorff sy'n cynnig llety â chymorth, yn ogystal ag amryw o wasanaethau eraill, i helpu pobl ddigartref ifanc ledled Gwynedd."

Bydd y diwrnod hwyl ym Mhorthmadog yn dechrau am 10.00am ac yn gorffen tua 4.00pm ac mae cyfarwyddiadau ar wefan GISDA yn www.gisda.co.uk.